Diweddariad Feirws CORONA / COVID – 19 19.03.20

Annwyl Riant/ Warcheidwad,

Mae'n debyg y byddwch i gyd wedi clywed datganiad ein gweinidog addysg, Kirsty Williams ddoe ynghylch ei **phenderfyniad i gau ysgolion ddiwedd yr wythnos hon**.

Mae'r gweinidog hefyd wedi datgan na fydd cyfres arholiadau'r haf yn digwydd eleni. Dywedodd ddoe:

> Rydym mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen, un sy'n newid o awr i awr, ac mae gofyn i lywodraethau ym mhob rhan o'r byd wneud penderfyniadau yn gyflym. Rydym yn cydnabod y gofid a'r pryder a achoswyd gan yr ansicrwydd am arholiadau'r haf. Heddiw fe wnes i gyfarfod â Chymwysterau Cymru a CBAC i ystyried opsiynau sydd er budd pennaf ein dysgwyr. Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw ddewisiadau hawdd, ond rydym yn gytûn mai'r ffordd orau ymlaen yw peidio â pharhau gydag arholiadau'r haf. Er mwyn cydnabod eu gwaith, dyfernir gradd deg i'r dysgwyr a oedd i fod i sefyll arholiadau TGAU a Lefel A yn ystod yr haf, gan dynnu ar ystod yr wybodaeth sydd ar gael. Byddwn yn gweithio gyda'r sector i gyhoeddi rhagor o fanylion yn fuan, ond roeddem am roi'r sicrwydd hwn ar y cyfle cyntaf posib. Ni fyddwn ychwaith yn defnyddio'r canlyniadau i gyhoeddi deilliannau mesurau perfformiad yn 2020.

Deallwn fod hyn yn codi llawer o gwestiynau a phryder meddwl i rieni a phobl ifanc. Mae'r sefyllfa'n datblygu'n gyson a rhannwn y wybodaeth berhnasol wrth i ni ei derbyn. Gofynnwn am eich amynedd o ddeall nad yw'r atebion i lawer o gwestiynau gennym eto.

Beth a wyddom?

1. Bydd yr ysgol ar gau i ddisgyblion pob blwyddyn o ddydd Llun 23ain o Fawrth am gyfnod na wyddom ei hyd ar hyn o bryd. (Mae blynyddoedd 7-9 eisoes gartref)
2. Ni fydd arholiadau allanol haf yn mynd yn eu blaen.
3. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried camau cymorth i deuluoedd rhai disgyblion
4. Mae athrawon yr ysgol yn paratoi gwaith ar gyfer disgyblion pob blwyddyn drwy Google Classrooms.. Rhoddwyd 'codau dosbarth i bob disgybl ond os cewch broblem gyda hyn yna cysyllter â cymorthtg@glantaf.cymru

5. Dylai disgyblion Cyfnod Allweddol 4 ac ôl 16 gwblhau'r tasgau a osodir ar eu cyfer gan staff er mwyn ategu 'ystod yr wybodaeth sydd ar gael' y cyfeiria'r Gweinidog Addysg ato yn ei datganiad uchod.
6. Os oes gennych unrhyw bryderon, mae gennych gyfeiriadau e bost Arweinwyr Cynnydd (Penaethiaid Blwyddyn) pob blwyddyn ac maent yn ymwybodol o ddisgyblion bregus a'u hanghenion. Gwnawn bopeth y medrwn i gynorthwyo'r disgyblion hyn. Mae modd cysylltu a ni hefyd drwy: ysgolgyfunglantaf@cardiff.gov.uk
7. Mae rhifau Cymorth asiantaethau allanol wedi eu nodi o fewn Google Classrooms.
8. Mae nifer arwyddocaol o staff eisoes gartref (cyfuniadau o ynysu teuluol, cyflyrau iechyd penodedig a gofynion gwarchod) ond bydd presenoldeb staff yn yr ysgol ei hun yn parhau gyhyd ag y bo modd ac yn ôl anghenion a gofynion ein cymuned..

Pwyswn ar rieni i ddilyn y cyngor diweddaraf ynghylch y feirws sydd yn cael ei ddiweddaru ar:

https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/

https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/

I gael y canllawiau llawn, ewch i wefan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response

Gan fod y sefyllfa'n datblygu ac yn newid mor gyflym,byddaf yn ategu unrhyw wybodaeth am ddatblygiadau mewn cyhoeddiadau byrion drwy gyfrif Twitter, e bost, a'r Parent App. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol ar ein gwefan**.** Diolch eto am eich cydweithrediad yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn ddiffuant

Alun Davies
Pennaeth

CORONA VIRUS / COVID – 19 Update 19.03.20

Dear Parent/ Guardian

It is likely that you will already be aware that the Minister for Education, Kirsty Williams AM,' made the decision yesterday to close schools at the end of this week.

The minister also stated that the summer examination series will not take place this year.

> We are in an unprecedented period, one that is changing hour-by-hour, and governments around the world are having to make quick decisions. We recognise the worry and anxiety that the uncertainty around the summer exam series was causing. Today I met with Qualifications Wales and WJEC to consider options that are in the best interests of our learners. We recognise that there are no easy choices but we have agreed that the best way forward is not to proceed with summer exam series. Learners due to sit their GCSEs and A levels this summer will be awarded a fair grade to recognise their work, drawing on the range of information that is available. We will be working with the sector to announce further details shortly but wanted to give this early certainty. We also won't be using the results to publish performance measure outcomes in 2020

We understand that this raises many questions and may worry both students and parents. The situation is constantly evolving and we will share the relevant information as we receive it. We ask for your patience in understanding that we do not yet have the answers to many questions.

What do we know?

1. The school will be closed to pupils of all years from Monday 23rd March for a currently unspecified period. (Years 7-9 are already at home)

2. Summer external examinations will not proceed.

3. The Welsh Government is considering support for some pupils' families

4. Glantaf staff have prepared work for pupils of each year group via 'Google Classrooms' and will be adding to the tasks over the period during which students are not in school. All pupils have been given their class codes but if you encounter any difficulty with this please contact helptg@glantaf.cymru

5. Key Stage 4 and Post 16 pupils should complete the tasks set for them by staff in

order to supplement the **'range of information available**' referred to by the Education Minister in her statement above.

6. If you require assistance or need help, you have our Progress Leaders (Heads of Year) e mail addresses. They are also aware of vulnerable pupils and their needs. We will do everything we can to help these pupils. You can also contact us at: ysgolgyfunglantaf@cardiff.gov.uk

7. Telephone support numbers of external agencies are listed within Google Classrooms.

8. There are already a significant number of staff homeworking (combinations of family isolation, identified higher risk health conditions and childcare requirements) However, staff attendance at the school itself will continue for as long as possible and according to the needs and requirements of our community.

We urge parents to follow the latest virus advice which is being updated on:

https://www.nhs.uk/conditions/coronavirus-covid-19/

https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/

For the guidance in full, visit the Department of Health and Social Care website:

https://www.gov.uk/government/topical-events/coronavirus-covid-19-uk-government-response

Because the emergency is developing and changing so quickly, I will be updating any information about developments in short announcements via our Twitter account, email, and the Parent App. Any significant changes will be on our website. Thank you again for your co-operation during this challenging time.

Yours sincerely

Alun Davies
Headteacher